

Ysgrifennu Dyddiadur

Does dim o'r fath beth â dŵr newydd. Mae'r gylchred ddŵr yn ailgylchu dŵr drosodd a throsodd. Rydyn ni'n defnyddio'r un dŵr â'r deinosoriaid. Buoch yn chwarae gêm y Gylchred Ddŵr yn ein Canolfan Ddarganfod, beth rydych chi'n ei gofio amdani? [Meddyliwch am y Gylchred Ddŵr ac esgus eich bod yn ddiferyn o law.](#) [Ysgrifennwch ddyddiadur am eich taith.](#) [Meddyliwch sut y mae'r diferyn yn teimlo ym mhob rhan o'r Gylchred Ddŵr.](#)

Defnyddiwch y cynllun hwn i'ch helpu.

Diwrnod un –

Rydych yn y môr gyda'ch ffrindiau. Sut rydych yn teimlo? Beth rydych yn ei wneud? Beth rydych yn ei glywed? Beth rydych yn ei weld? Beth rydych yn ei arogl? Mae'r haul yn disgleirio arnoch.

Diwrnod dau –

Anweddu – rydych yn codi i'r awyr, yn troi o fod yn hylif i fod yn nwy. Sut rydych yn teimlo? Beth rydych yn ei wneud? Beth rydych yn ei glywed? Beth rydych yn ei weld? Beth rydych yn ei arogl?

Diwrnodau tri a phedwar –

Cyddwyso – y tu mewn i gwmwl. Sut rydych yn teimlo? Beth rydych yn ei wneud? Beth rydych yn ei glywed? Beth rydych yn ei weld? Beth rydych yn ei arogl?

Diwrnod pump –

Dyodi – rydych yn syrthio i lawr tua'r bryniau wrth iddi ddechrau bwrw glaw. Rydych yn llithro i lawr y bryn i mewn i nant ac yn cael eich cario i'r afon.

Diwrnod chwech –

Rydych yn cyrraedd y môr unwaith eto.

Defnyddiwch ddechrau fy nyddiadur i i'ch ysbrydoli.


Annwyl Ddyddiadur,

Mae heddiw'n ddiwrnod diflas arall yn arnofio yn y môr gyda fy ffrindiau. Rydyn ni i gyd wedi cael ein gwasgu at ein gilydd, fel milwyr, yn llifo i un cyfeiriad ac wedyn i gyfeiriad arall. Wrth i mi syllu ar yr haul disglair, rwy'n meddwl 'Tybed pryd y caf i fy newis i deithio tuag ato?' Rwy wedi bod yno o'r blaen ac mae'n hwyl (ond ychydig yn ailadroddus!) Rwy'n gallu clywed sŵn plant hapus a chŵn sy'n dipyn o niwsans ar y traeth. O! Dyma jet-sgi arall. SBLASH! Rwy'n gweiddi ar yr haul 'Coda fi nesaf. Rwy wedi cael llond bol o aros. Rwy'n barod am antur arall!'

Annwyl Ddyddiadur ...

Meddyliwch am yr atalnodau y gallech eu defnyddio.

Sut allwch chi wneud hyn yn ddiddorol i'r darlennydd?



Cofiwch ddefnyddio'r amser gorffennol. Mae hyn wedi digwydd eisoes!

Allwch chi ddefnyddio geiriau gwyddonol (e.e. anweddu)? Bydd eich athro'n falch!